Bu gwyneb Mrs Marshall yn gyfarwydd i genhedlaeth gyfan o blant a rhieni cylch Penrhyn-coch. Hi oedd hyd Hydref 5ed, 1979 yn gyfrifol am baratoi y bwyd a gweini wrth fyrddau cinio Ysgol Gynradd Penrhyn-coch. Bu wrthi'n ffyddlon am dros ddwy flynedd ar hugain a gwelodd llawer o newid a datblygiad yn y cylch. Pan ddechreuodd ar y laf o Fai 1957 y diweddar Rhys Jones, Bodelwy oedd y Prifathro. Symudwyd o'r hen ysgol i'r ysgol newydd ac yno bu'n gweithio o dan ofalaeth y Prifathrawon D.Alun Williams sydd bellach wedi symud i gylch Aberaeron, ac R.T.Evans, y Prifathro presennol. Mawr yw ein dyled fel ardal i un oedd bob amser yn gydwybodol yn ei gwaith ac yn ffrind mynwesol i'r plant. Er nad ydy hi'n ymddeol yn llwyr dymunwn yn dda iddi hi a'i theulu.

Hydref 1979